# Grant GAD Ysgol Bro Plenydd 2014/15: £2,754

Mae'r ysgol yn derbyn arian gan y llywodraeth (Grant Amddifadedd Disgyblion) am bob plentyn sydd a hawi i ginio am ddim. Mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i'r ysgol amlinellu sut mae'n gwario'r arian yma.

**Mae cynlluniau i wario'r arian fel a ganlyn:**

Cynnal sesiynnau hyfforddiant i rieni ar agweddau o'r Fframwaith Lythrennedd a Rhifedd :

Cymorth gyda adnabod llythrennau a darllen gyda plant ac i blant
Eirian Jones, awdur y cynllun ffoneg 'Tric a Chlic' yn rhoi cyflwyniad i rieni ar sut i ddatblygu sgiliau ffoneg a darllen cynnar plant drwy ddefnyddio'r cynllun sydd eisioes yn cael ei ddefnyddio yn yr ysgol.
Prynu pecynnau rhieni Cam 1,2 a 3 'Tric a Chlic' – gweithgareddau hwyl a gemau i'w hargraffu a chwarae fel bod y rhieni yn ei ddefnyddio adref fel gwaith cartref i ddatblygu medrau ffoneg a darllen.

Cymorth gyda helpu plant i ddefnyddio gweithdrefnau adio, tynnu, lluosi a rhannu cywir a mathemateg pen a dulliau ymarferol. Creu llyfrynnau 'rhifedd' ar gyfer rhieni.

Cymorth gyda helpu plant gyda datblygu llawysgrifen.

Cynnal hyfforddiant ar ddatblygu sgiliau chwarae cynnar – sut i chwarae gyda plant gan fodelu iaith a meithrin creadigrwydd.

Rhyddhau 2 athrawes i fynychu cwrs gemau buarth i hyrwyddo cyd chwarae a chreadigrwydd ar y buarth chwarae.

Cyflogi Mair Tomos Ifans i gynnal sesiwn chwaraeon buarth ar gyfer disgyblion CA2 a'u hyfforddi i greu gemau y gallant chwarae eu hunain a gyda'r plant lleiaf hefyd.

Cyflogi cymhorthydd i weithio 5 awr yr wythnos [Tymor Yr Haf, Tymor yr Hydref a Thymor y Gwanwyn] ar ddatblygu medrau allweddol.
Defnyddio Rhaglenni Ymyrraeth Dyfal Donc ynghyd a gemau Truggs, Numicon a SAFMEDS.

Targedau unigol yn cael eu pennu ar gyfer pob disgybl yn unigol ym maes llythrennedd a rhifedd. Defnydd o Numicon a Truggs mewn sesiynnau grwp targed ac un i un.
Cymhorthydd i weithio am sesiynnau unigol cyfwerth a mis o amser ar draws y flwyddyn.